Llwybr Hen Fethel

Hyd: 3.75km (2.3 o filltiroedd)

Mae'r daith hon yn dechrau o'r maes parcio wrth ymyl capel Bryn Seion. Mae hanes sgwâr y pentref wedi'i gofnodi ar y panel y byddwch yn mynd heibio iddo y tu allan i fynedfa'r maes parcio. Defnyddiwch y groesfan gerddwyr i groesi'r briffordd, a chadwch i'r chwith er mwyn cerdded i lawr Heol yr Orsaf. Croeswch y groesfan reilffordd. Y caban signalau ar y chwith yw'r cyfan sy'n weddill bellach o orsaf reilffordd Cwmaman. Yr Amman Hotel oedd yr adeilad mawr ar y dde yn wreiddiol.

Wrth y gyffordd, ewch dros Bont Glanaman sy'n croesi afon Aman. Trowch i'r dde i mewn i Heol Folland, a enwyd ar ôl y sawl a sefydlodd Ysbyty Dyffryn Aman sydd ar y chwith. Yr enw gwreiddiol ar y ffordd hon oedd Heol Horni. Yn ôl traddodiad lleol, gafodd goedwig yn leol ei dorri i lawr blynyddoedd maith yn ôl. Pan symudwyd y boncyffion mawr i lawr y ffordd yma ar geirt, gawsai corn ei ganu i rybuddio pobl eu bod ar y ffordd. Cymerwch ofal yn y fan hon oherwydd nid oes llwybr troed ar hyd y ffordd.

Trowch i'r chwith i fyny'r llwybr gan ddilyn yr arwyddbost i Hen Fethel. Ewch yn eich blaen i fyny'r llwybr heibio i Dyllwyd. Credir bod y tŷ hwn yn dyddio'n ôl i'r 17eg ganrif, ac mae'n bosibl mai dyma'r tŷ hynaf sy'n dal i sefyll yn y gymuned. Ewch dros gamfa ar ôl mynd heibio i Dyllwyd gan gymryd gofal, oherwydd gall y llwybr fod yn fwdlyd yn y fan hon. Dilynwch yr arwyddion nes i chi gyrraedd ffin. Trowch i'r dde a dilynwch y ffin nes cyrraedd gât mochyn. Cadwch at linell y clawdd nes cyrraedd gât mochyn arall sy'n arwain at lôn. Dilynwch y lôn hon nes cyrraedd capel Hen Fethel. Dilynwch y llwybr o flaen y capel am 75 metr nes cyrraedd panel sy'n cofnodi hanes y capel.

Dychwelwch ar hyd yr un llwybr yn ôl heibio i gapel Hen Fethel, a dilynwch y llwybr troed o amgylch tu allan wal y fynwent nes cyrraedd camfa sydd o'r golwg braidd ar y chwith. Mae'r llwybr troed yn y fan hon yn dilyn llinell ffordd sy'n segur ers amser maith ac sy'n arwain at nant. Croeswch y nant gan ddefnyddio'r bont bren. Cerddwch gyda'r nant am ychydig, ac yna ewch i fyny'r bryn ac ar hyd hen lwybr sy'n arwain at y ffordd.

Ewch dros gamfa i gyrraedd y ffordd, a throwch i'r chwith. Ewch yn eich blaen heibio i Gwmffrwd, ac ychydig cyn cyrraedd nant Berach ewch dros y gamfa ar y chwith. Dilynwch y nant i lawr y cwm coedog nes bydd y llwybr yn dringo ochr y cwm ac yn mynd i mewn i gae. Yna, bydd y llwybr yn dilyn ymyl y caeau i lawr y cwm. Gellir gweld golygfeydd o Fynydd y Betws o'r fan hon.

Ar ôl yr ail gamfa byddwch yn cerdded ar hyd llwybr caregog. Parhewch i gerdded gyda'r nant gan gadw i'r chwith ohoni. Dilynwch y llwybr troed nes cyrraedd Heol Tircoed, trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd i lawr y rhiw, rownd y gornel a thros Bont Glanaman unwaith yn rhagor. Dychwelwch i'r maes parcio ar hyd yr un llwybr ag o'r blaen.

The Hen Fethel Trail

Length: 3.75km (2.3 miles)

This walk stars from the car park next to Bryn Seion chapel. A history of the village square is given on the panel you pass outside the car park entrance. Use the pedestrian crossing to cross the main road and bear left to go down Station Road. Cross the level crossing on the railway. The signal box on the left is all that now remains of Cwmamman railway station. The large building on your right was originally the Amman Hotel.

At the road junction cross Glanaman Bridge over the river Aman. Turn right into Folland Road, named after the benefactors of the Amman Valley hospital, which is on your left. This road was originally known as Heol Horni. A local tradition says that many years ago a local forest was felled and when the large trunks were brought down the road by cart a horn was blown to warn people they were coming. Take care here as there is no footpath along the road.

Turn left up the track with the finger post to Hen Fethel. Carry on up the track past Tyllwyd, which is thought to date to the 17th century and may be the oldest surviving house in the community. After passing Tyllwyd, cross over a stile, taking care as the path can be muddy here. Follow the waymarkers until you meet a boundary. Turn to the right and follow the boundary to a kissing gate. Keep to the hedge-line to another kissing gate which leads to a lane. Follow this to Hen Fethel chapel. Follow the track in front of the chapel for 75 metres to a panel which gives its history.

Retrace your steps back past Hen Fethel and follow the footpath around the outside of the wall of the graveyard to a stile, tucked away on the left. The footpath at this point follows the line of a long-abandoned road down to a stream, which you cross over via a wooden bridge. Follow the stream downstream a little further and turn uphill onto an old track which leads to the road.

Cross a stile onto the road and turn left. Continue past Cwmffrwd, and just before the Berach stream cross over the stile on the left. Follow the stream down the wooded valley until the path climbs up the valley side into a field. The path then follows the edge of the fields down the valley. Views of Mynydd y Bettws can be seen from here.

After the second stile you will find yourself on a stony track, carry on downstream, keeping to the left of the stream. Follow the footpath to Tircoed Road, turn left and follow the road downhill, round the corner and over Glanamman Bridge again. Retrace your steps back to the car park